



Eich cyf AS
Ein cyf HIDCC/02148/25

Y Cyngorydd Ioan Thomas
AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

19 Rhagfyr 2025

Annwyl Gyngorydd Thomas,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd ynglŷn â newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i'r Dreth Etifeddiant.

Er bod Treth Etifeddiant yn dreth gadw a weinyddir gan Lywodraeth y DU, ac mae'n gyfrifoldeb arnynt asesu goblygiadau unrhyw newidiadau arfaethedig, mae'n hanfodol bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n briodol.

Rwyf wedi cyfleu pryderon dwfn ffermwyr Cymru i Lywodraeth y DU, dro ar ôl tro, gan bwysleisio bod yn rhaid clywed eu barn a'u hystyried yn llawn yn y penderfyniadau hyn a'r penderfyniadau yn y dyfodol sy'n effeithio ar y sector. Rwyf hefyd wedi annog Llywodraeth y DU yn gyson i ymgysylltu'n ystyrlon ag undebau ffermio Cymru ac i ystyried eu tystiolaeth, yn ogystal ag opsiynau amgen ymarferol a allai liniaru'r effaith ar ffermydd teuluol a diogelu ffermio cynaliadwy yng Nghymru.

Ar ôl gwrandao ar adborth o bob rhan o'r diwydiant, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ei Chyllideb yr Hydref ar 26 Tachwedd y gellir, o'r 6 Ebrill 2026, drosglwyddo'r lwfans Rhyddhad Eiddo Amaethyddol a Busnes o £1 miliwn rhwng priod a phartneriaid sifil, hyd yn oed os bu farw'r person cyn y dyddiad hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ffermio, gan gydnabod ei rôl hanfodol wrth gynnal cymunedau gwledig, diogelu ein hamgylchedd, a chryfhau economi Cymru. Trwy ein polisïau a'n cyllid, rydym yn helpu ffermwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol, parhau i fod yn wydn, a ffynnu wrth i ni drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yn 2026, rwyf wedi ymrwymo hyd at £238m ar gyfer Taliadau Cyffredinol a'r Cynllun Taliad Sylfaenol etifeddiaeth, gyda £102.2m arall ar gyfer Camau Gweithredu Dewisol a Chydweithredol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi bod yn glir mai'r £102.2m ar gyfer Dewisol a Chydweithredol yw isafswm y gyllideb sydd ar gael. Pe bai arian ychwanegol ar gael wrth i ffermwyr symud o BPS, rwyf wedi ymrwymo i sianelu'r arian hwnnw i'n haenau Dewisol a Chydweithredol.

Yn ogystal, mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cyfarfodydd olyniaeth deuluol wedi'u hwyluso, adolygiadau olyniaeth i ddeall y goblygiadau o ran treth etifeddol, a chynghor busnes a chyfreithiol am bris gostyngol i ddatblygu cynlluniau olyniaeth.

Diolch eto am ysgrifennu ataf ynghylch y materion pwysig hyn. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of several fluid, overlapping loops and strokes, typical of a personal or official signature.

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig